**Y CYFANSODDIAD ADRAN 19**
**COD YMARFER CYNLLUNIO**

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ganllaw i'r gweithdrefnau y dylai'r Cynghorwyr ('Aelodau') a Swyddogion y Cyngor eu defnyddio wrth ddelio â materion cynllunio ac yn gosod safonau uniondeb ac ymddygiad y gall pobl Wrecsam ei ddisgwyl ganddynt.

1.2 Mae system cynllunio gwlad a thref yn golygu bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu a defnydd o dir er budd y cyhoedd. Mae cyfraith cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu yn unol â chynllun datblygu mabwysiedig Wrecsam oni bai bod ystyriaethau cynllunio atodol yn nodi fel arall.

1.3 Gan fod Cynllunio yn effeithio ar fywydau pobl a buddion preifat gall fod yn gynhennus. Felly mae'n bwysig bod pobl Wrecsam yn deall y system a bod ganddynt hyder yn ei uniondeb a thryloywder, a bod Aelodau a Swyddogion yn osgoi amhriodoldeb neu hyd yn oed yr amheuaeth o amhriodoldeb. Cefnogir yr ymagwedd hon gan Bwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan) Archwilio Rhanbarthol a Chymdeithas Llywodraeth Leol.

1.4 Mae'n rhaid i aelodau a swyddogion sicrhau fod eu hymddygiad yn cydymffurfio â Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a Swyddogion, (sy'n cynnwys materion megis datgan cysylltiad, rhoddion a lletygarwch), ond, wrth ddelio â materion cynllunio, rhaid gweithredu'n unol â'r Cod Ymarfer Cynllunio hwn.

1.5 Gall torri'r cod hwn, er nad yw fel arfer yn golygu torri cyfraith trosedd, gael effaith andwyol ar sefyllfa'r Cyngor. Gallai arwain at adolygiad barnwrol o benderfyniad neu gyflwyno cwyn am gamweinyddu neu honiad o dorri'r Cod Ymddygiad i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

1.6 Os oes gan Aelodau neu Swyddogion amheuon ynglŷn â defnydd y Cod hwn dylent geisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor.

## 2 ROLAU, CYFRIFOLDEBAU AC YMDDYGIAD CYFFREDINOL

2.1 Mae gan Gynghorwyr etholedig ('Aelodau') a swyddogion rolau gwahanol, ond sy'n ategu at ei gilydd yn y broses gynllunio. Mae gan Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio rolau sy'n wahanol i rolau Cynghorwyr eraill.

Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

2.2 Mae'r Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu ar y ceisiadau cynllunio sylweddol a chynhennus y mae'r Cyngor yn eu derbyn ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â mabwysiadu polisi Cynllunio, megis y Cynllun Datblygu. Drwy wneud hynny mae gan yr Aelodau hyn rôl led-farnwrol ac mae gofyn iddynt ystyried yr holl gynigion cynllunio yn erbyn buddion ehangach y cyhoedd.

2.3 Gall y Cyngor llawn, mewn amgylchiadau eithriadol, gyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor Cynllunio. Mae ceisiadau eraill yn cael eu dirprwyo i Brif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio i'w penderfynu, fel y nodir ym Mharagraff 2.10 isod.

2.4 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn:

1. ymddwyn yn deg ac yn agored ac yn osgoi unrhyw gamau a allai arwain at argraff o duedd.
2. osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â diddordeb.
3. delio â phob cais / mater cynllunio gyda meddwl agored, gan osgoi cysyniadau a wnaed ymlaen llaw.
4. peidio â threfnu cefnogaeth neu wrthwynebiad ar gyfer cais cynllunio
5. peidio â mynegi barn yn gyhoeddus* cyn penderfynu ar gais a allai nodi eu bod wedi gwneud eu penderfyniad heb glywed yr holl dystiolaeth a'r safbwyntiau fydd yn cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor Cynllunio.

   Os bydd Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio yn cefnogi canlyniad penodol yn gyhoeddus* neu'n mynegi safbwynt terfynol ar gais cyn cyfarfod y Pwyllgor bydd yn anodd iawn i'r Aelod hwnnw gadarnhau'n argyhoeddiadol, pan ddaw'r Pwyllgor i wneud penderfyniad, ei fod ef neu hi wedi pwysoli'r safbwyntiau yn ofalus. Y camau priodol ar gyfer Aelod o'r fath fyddai gwneud datganiad agored, peidio â thrafod na phleidleisio ar y mater. Byddai methu â gwneud hynny'n rhoi'r Cyngor mewn perygl o adolygiad barnwrol neu gŵyn i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

* Mae 'yn gyhoeddus' yn y cyd-destun hwn yn golygu unrhyw sefyllfa lle y disgwylir i safbwynt a fynegir dderbyn cylchrediad cyhoeddus ehangach gan gynnwys datganiad i'r wasg, mewn llythyr a gyflwynwyd gan yr Aelod i'r Adran Gynllunio a Rheoleiddio, neu mewn cyfarfod Cyngor Tref / Cymuned (neu un o'i Bwyllgorau).

6. pwysoli'r holl faterion cynllunio perthnasol yn ofalus cyn gwneud penderfyniad.

7. gwneud penderfyniadau ar seiliau cynllunio yn unig er budd y cyhoedd ac nid i ffafrio, neu ymddangos eu bod yn ffafrio, unrhyw unigolyn, cwmni, grŵp neu ardal. O ran hynny, er bod gan Aelodau'r Pwyllgor ddyletswydd arbennig i etholwyr eu Ward, gan gynnwys y rhai sydd heb bleidleisio amdanynt, mae eu dyletswydd gor-redol ar gyfer y gymuned gyfan.

8. peidio â phenderfynu sut i bleidleisio ar geisiadau yn seiliedig ar 'chwip' wleidyddol, ond ar rinweddau cynllunio pob achos. (Safbwynt yr Ombwdsmon yw y gallai gwneud penderfyniad cynllunio yn destun disgyblaeth chwip wleidyddol arwain at gamweinyddu).

9. sicrhau bod rhesymau dros eu penderfyniadau'n cael eu nodi'n glir

**Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sydd hefyd yn Aelodau o Gynghorau Tref / Cymuned**

2.4 Mae aelodaeth o Gyngor Tref / Cymuned yn darparu cyfle i wrando ar safbwyntiau lleol ac nid yw'n achosi gwrthdaro buddiannau ei hunan ar gyfer Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ar yr amod ei fod ef/ ei bod hi yn cadw meddwl agored nes y cyflwynwyd yr holl dystiolaeth a safbwyntiau yn y Pwyllgor Cynllunio.

2.5 Os yw Aelod yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Tref / Cymuned (neu un o'i Bwyllgorau) pan fydd cais / mater cynllunio'n cael ei ystyried, gall ef/hi drafod a gofyn cwestiynau, ond ni ddylai fynegi safbwynt o blaid neu yn erbyn y cais ac ni ddylent bleidleisio.

2.6 Os yw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio yn mynegi safbwynt cryf i gefnogi neu wrthwynebu cais yng nghyfarfod Cyngor Tref / Cymuned (neu un o'i Bwyllgorau), ni ddylai ef/hi gymryd rhan wrth benderfynu ar y cais yn y Pwyllgor Cynllunio.

**Aelodau'r Cyngor nad ydynt yn Aelodau Pwyllgor**

2.7 Mae Aelodau nad ydynt yn Aelodau Pwyllgor yn cynrychioli eu Wardiau a'r Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd a gallant arfer eu hawl i fynychu'r Pwyllgor Cynllunio ac Ymweliadau Safle'r Pwyllgor i siarad ar unrhyw fater cynllunio (yn amodol ar ddatgan cysylltiad), ond ni chânt bleidleisio. Nid yw Aelodau o'r fath yn gweithredu'r rôl led-farnwrol sydd gan Aelodau'r Pwyllgor, ond byddant yn: -

1. ymddwyn yn deg ac yn agored ac osgoi unrhyw gamau a allai arwain at argraff o duedd neu ddylanwad gormodol.
2. osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â diddordeb.

2.8 Gall Aelodau o'r fath fynegi cefnogaeth ar gyfer barn benodol cyn i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor (neu gan Brif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio o dan bwerau dirprwyol), ond dylent barchu'r ffaith na all Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wneud yr un fath.

**Yr holl aelodau**

2.9 Ni ddylai Aelodau roi pwysau ar Swyddogion i wneud argymhellion penodol mewn adroddiadau.

Swyddogion

2.10 Mae Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn gwneud penderfyniadau ar gyfran o geisiadau cynllunio o dan bwerau dirprwyol ac yn gwneud argymhellion ar geisiadau sylweddol a chynhennus a materion cynllunio eraill sydd i'w penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor. Wrth ystyried ceisiadau a chynghori Aelodau a'r cyhoedd ynglŷn â pholisi cynllunio, penderfynu ar geisiadau cynllunio, gorfodi a materion cynllunio eraill, bydd y Swyddogion Cynllunio yn: -

1. ymddwyn yn deg ac yn agored ac osgoi unrhyw gamau a allai arwain at argraff o duedd.
2. osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â diddordeb.
3. delio â phob cais / mater cynllunio gyda meddwl agored, gan osgoi cysyniadau a wnaed ymlaen llaw.
4. pwysoli'r holl faterion cynllunio perthnasol yn ofalus
5. gwneud penderfyniadau ar sail cynllunio yn unig gan ystyried y cynllun datblygu ac ystyriaethau atodol eraill.
6. rhoi cyngor cynllunio proffesiynol, gwrthrychol a chyson
7. darparu dadansoddiad cynhwysfawr a chywir o faterion cynllunio
8. rhoi argymhelliad clir
9. gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor

2.11 Mae Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor yn cynghori Aelodau ar faterion cyfreithiol a gweithdrefnau. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt: -

1. ymddwyn yn deg ac yn agored ac osgoi unrhyw gamau a allai arwain at argraff o duedd.
2. osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â diddordeb.
3. rhoi cyngor proffesiynol, gwrthrychol a chyson
4. gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor cyn belled ag y byddent yn ymwneud â chwblhau unrhyw gytundeb cyfreithiol, sefydliad / achosion amddiffyniad ac ati.

## 3. TRAFODAETHAU CYN CYFLWYNO CAIS / PENDERFYNIAD A GORFODI

3.1 Mae trafod yn hanfodol yn y broses gynllunio gan ei fod yn gallu darparu gwelliannau sy'n gallu golygu bod cais yn dderbyniol neu ddatrys problemau.

3.2 Fel arfer bydd trafodaethau o'r fath yn cael eu cynnal ar lefel swyddog a bydd yr Aelodau, pan fo modd, yn atgyfeirio ceisiadau ar gyfer cyngor o'r fath i'r Swyddogion. Os bydd Aelodau'n rhan o drafodaethau o'r fath dylent egluro bod eu safbwyntiau'n bersonol ac yn rhai dros dro ac efallai y byddant yn dymuno gwneud cofnod o'r drafodaeth.

3.3 Bydd pob Swyddog sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath yn:

1. egluro'n glir ai nhw yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ai peidio at ddibenion y cais /mater dan sylw.
2. egluro mai dim ond safbwyntiau personol a thros dro y gellir eu mynegi ac na fyddent yn ymrwymo'r Cyngor i wneud penderfyniad penodol wrth lunio penderfyniad ynglŷn â chais.
3. mynegi safbwyntiau yng nghyd-destun y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio eraill.
4. bod yn gyson wrth ddehongli polisïau cynllunio

5. cynghori ymgeiswyr a chymdogion / gwrthwynebwyr ynglŷn â materion trefniadol

3.4 O bryd i'w gilydd bydd pobl leol neu Gynghorau Cymuned / Tref yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod cais cyfredol a gallant wahodd ymgeiswyr, Aelodau a Swyddogion i fynychu'r cyfarfod.
O ystyried yr angen i osgoi rhag-benderfynu, bydd Aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath yn eu defnyddio i ganfod ffeithiau; nid i fynegi barn o blaid neu yn erbyn y cynnig a byddant yn ymddwyn yn unol â Pharagraffau 2.2 i 2.6 a 3.3 uchod.

## 4 LOBÏO AELOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

4.1 Mae'n rhan gyfreithlon o'r broses gynllunio bod ymgeiswyr, cymdogion, Aelodau nad ydynt yn Aelodau Pwyllgor a phartïon eraill â diddordeb yn cysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Gall y trafodaethau hyn gynorthwyo Aelodau i ddeall y materion a'r pryderon. Fel y nodwyd yn Nhrydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan: "it is essential for the proper operation of the Planning system that local concerns are adequately ventilated"

4.2 Wrth ymateb i'r dulliau hyn, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y 9 egwyddor a amlinellwyd ym Mharagraff 2.3 uchod ac efallai y byddant yn dymuno cadw cofnod o'r drafodaeth, ond hefyd byddant yn: -

1. egluro'r sefyllfa wrthdrawiadol y maent ynddi o bosib os ydynt yn mynegi barn ynglŷn â chynnig cyn ystyried y cais yn y Pwyllgor / gan Brif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio.
2. egluro'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno sylwadau; y system ddewisol sy'n caniatáu i'r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor, pe bai'r cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i wneud penderfyniad yn ei gylch, ac y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl ystyried yr holl rwymedigaethau cynllunio perthnasol.
3. egluro'r mathau o faterion cynllunio y gall y Cyngor eu hystyried.
4. adrodd am faterion a godwyd i Swyddogion neu atgyfeirio'r cyhoedd i'r Swyddogion er mwyn iddynt ystyried eu safbwyntiau
5. cynghori'r cyhoedd i gysylltu ag Aelodau nad ydynt yn Aelodau Pwyllgor a allai gynrychioli safbwyntiau lleol gyda llai o gyfyngiadau.

## 5. CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNIR GAN AELODAU, CYNGHORAU CYMUNED / TREF A SWYDDOGION

5.1 Bydd Ceisiadau Cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran Aelodau neu Swyddogion a gyflogir yng Nghyfarwyddiaeth Cynllunio a Rheoleiddio neu eu perthnasau agos* lle bo'n hysbys, yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid gan Brif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio o dan bwerau dirprwyol. Bydd hyn hefyd yn berthnasol pan fydd Aelod neu Swyddog yn gweithredu fel asiant ar ran parti arall. (*Diffinnir 'perthynas agos' fel priod, partner, rhiant, plentyn, brawd neu chwaer).

5.2 Bydd yr Aelod yr effeithir arnynt yn datgan cysylltiad ac ni fyddant yn cymryd rhan yn y penderfyniad.

5.3 Ni fydd y swyddog yr effeithir arnynt yn cymryd rhan yn y penderfyniad.

5.4 Pan fydd Cyngor Cymuned / Tref yn cyflwyno cais cynllunio, dylai Aelodau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol sydd hefyd yn Aelodau o'r Cyngor Cymuned / Tref ddatgan cysylltiad ac ni ddylent bleidleisio ar y cais pe bai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i wneud penderfyniad yn ei gylch.

## 6 ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

6.1 Bydd yr holl faterion Cynllunio sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn destun adroddiadau ysgrifenedig llawn gan Brif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio (neu, yn achos materion cyfreithiol, Prif Swyddog Llywodraethu Chwsmeriaid) gan ymgorffori eu hargymhellion. Bydd adroddiadau o'r fath yn gynhwysfawr, ond yn gryno o ran nodi'r materion cynllunio (neu gyfreithiol) allweddol y dylid eu hystyried (o ran darpariaethau'r cynllun datblygu a rhwymedigaethau cynllunio eraill), cynnwys unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac unrhyw hanes cynllunio perthnasol.

## 7 SIARAD CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Hawl i Siarad

7.1 Mae'n rhaid i'r cais cynllunio dan sylw fod ar raglen cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dan sylw.
Ni chaniateir siarad cyhoeddus mewn

- Cyfarfodydd Pwyllgor os yw'r cais wedi'i drafod mewn cyfarfod blaenorol, ond wedi'i ohirio
- Ymweliadau safle'r pwyllgor, oni bai ei fod ar gais y Cadeirydd er mwyn egluro materion ffeithiol
- Cyfarfodydd Pwyllgor a drefnwyd i benderfynu ar geisiadau yn dilyn ymweliadau safle

7.2 Gall yr ymgeiswyr (neu eu hasiant) a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiant) siarad ac nid oes unrhyw feini prawf cymhwyso heblaw cydymffurfio â gweithdrefn y Cyngor ynghlwm fel Atodiad 1.

7.3 Fel arfer, dim ond un person all siarad 'o blaid' ac un person all siarad 'yn erbyn' cais. Mewn achosion eithriadol iawn gall **Cadeirydd** y Pwyllgor arfer eu disgresiwn i ganiatáu un siaradwr ychwanegol ar bob 'ochr'. Gellir arfer y disgresiwn hwn fel arfer ar gyfer ceisiadau mawr pan fo gwahaniaethau sylweddol o ran safbwyntiau o fewn un 'ochr' (e.e. dau berson yn siarad yn erbyn cais ar gyfer archfarchnad fawr pan fydd un yn cynrychioli safbwyntiau adwerthwyr a'r llall yn cynrychioli safbwyntiau preswylwyr lleol). Mewn achosion o'r fath caniateir 2 siaradwr ar gyfer 'yr ochr arall' neu ddwbl yr amser arferol, os ydynt yn dymuno ei ddefnyddio.

7.4 Gall unrhyw un sy'n gofyn am gael siarad ganiatáu i'r Cyngor roi eu henw a'u rhif cyswllt i bobl eraill (o'r un safbwynt) sy'n dymuno siarad er mwyn iddynt

gytuno ar siaradwr, y materion i'w codi ac ati. Os na allant gytuno, yr unigolyn cyntaf a hysbysodd y Cyngor o'u bwriad i siarad fydd yn cael eu dewis i siarad fel arfer.

7.5 Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau i siarad i'r **Rheolwr Gweinyddol** yn yr Adran Gynllunio a Rheoleiddio cyn y terfyn amser a nodwyd yn y llythyrau hysbysu a anfonwyd at yr ymgeiswyr a'r cymdogion a'u cyhoeddi ar y wefan (ar hyn o bryd 4.30pm y Dydd Gwener cyn y Pwyllgor).

**Amser i Siarad**

7.6 Caniateir i'r siaradwyr gael **hyd at 3 munud** i gyfarch y Pwyllgor.

Cymorthyddion Gweledol

7.7 Ni chaiff siaradwr ddosbarthu nac arddangos deunydd ysgrifenedig yng nghyfarfod y Pwyllgor. Dylai unrhyw sylwadau ysgrifenedig gael eu cyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod cyhoeddusrwydd statudol a chânt eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Gweithdrefn

7.8 Disgrifir y weithdrefn ar gyfer siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor yn **Atodiad 1.**

## 8 ARCHWILIADAU SAFLE'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Diben Archwiliadau Safle'r Pwyllgor Cynllunio

Mae archwiliadau safle'r Pwyllgor yn ymarferion canfod ffeithiau sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth na fyddai'n bosib ei chael o ddarllen adroddiad y swyddog ac ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod Pwyllgor gan y partïon â diddordeb.

Ceisiadau am Archwiliadau

8.2 Cyflwynir ceisiadau gan Aelodau ar gyfer archwiliadau safle i'r Pwyllgor Cynllunio gyda'r rhesymau a'r materion yr hoffent i'r Pwyllgor eu harchwilio ar y safle.

Meini Prawf ar gyfer Cytuno i Gynnal Archwiliadau Safle

8.3 Mae ymweliadau safle yn cynnwys oedi o ran penderfynu ar y ceisiadau dan sylw a chostau ychwanegol. Er bod y penderfyniad a ddylid cynnal archwiliad yn fater i'r Pwyllgor Cynllunio, bydd yr Aelodau'n sicrhau bod ymweliadau o'r fath yn cael eu cynnal pan na all y Pwyllgor wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth heb weld y safle eu hunain ac y byddai'r archwiliad yn darparu buddion sylweddol yn unig. Mae enghreifftiau lle <u>na</u> ddylid cynnal ymweliad safle yn cynnwys:

1. materion polisi neu faterion o ran egwyddor yw'r mater dan sylw
2. pan fydd yr Aelod yn anghytuno â'r casgliad yn yr adroddiad yn unig.

Presenoldeb

8.4 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnal yr archwiliadau, ond gall Aelodau nad ydynt yn Aelod Pwyllgor fynychu a chyfarch y cyfarfod ar faterion o ffaith.

8.5 Mae gan yr ymgeisydd yr hawl i fod yn bresennol ar y safle, ond ni chânt ymuno â'r cyfarfod, heblaw i ateb cwestiynau gan Gadeirydd y Pwyllgor ar faterion o ffaith.

8.6 Nid oes gan y cyhoedd hawl i fod yn bresennol ar y safle, heblaw o olygfannau cyhoeddus ac ni chânt annerch y cyfarfod, heblaw i ateb cwestiynau Cadeirydd y Pwyllgor ar faterion o ffaith.

8.7 Gall Aelodau Lleol a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod Pwyllgor Cynllunio sy'n dilyn yr archwiliadau safle.

Ymddygiad

8.8 Bydd yr archwiliadau'n cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio (neu yn eu habsenoldeb gan yr Is-gadeirydd) fydd yn sicrhau y cânt eu cynnal fel cyfarfod sengl ac yn drefnus.

8.9 Ni chaiff Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sy'n mynychu'r archwiliad safle wneud sylwadau a fyddai'n creu'r argraff eu bod eisoes wedi llunio safbwynt ar y cais.

8.10 Ni chaiff Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drafod y cais, heblaw i egluro materion o ffaith, ac ni chânt wneud penderfyniad ar y safle.

8.11 Os bydd Aelod yn ei gweld yn ofynnol ymweld â safle ar eu pennau eu hunain (efallai pan nad oedd modd iddynt fynychu archwiliad y Pwyllgor), gallant weld y safle o olygfannau cyhoeddus yn unig, ceisio osgoi trafodaeth gyda phartïon â diddordeb, ac, os oes trafodaeth, egluro y gwneir penderfyniad ar ôl iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor ar ôl yr archwiliadau safle.

Gweithdrefn

8.12 Disgrifir y weithdrefn ar gyfer siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor yn **Atodiad 2.**

## 9 PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO SY'N GROES I ARGYMHELLIAD Y SWYDDOG

9.1 O bryd i'w gilydd bydd y Pwyllgor yn anghytuno â'r cyngor proffesiynol a roddwyd gan y swyddogion ac efallai y byddant yn llunio penderfyniad ar gais sy'n groes i'r cyngor hwnnw. Pan fydd hyn yn digwydd bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn ceisio sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn:-

1. Bydd yr Aelodau'n mynegi'r rheswm (rhesymau) cynllunio dros eu penderfyniad a bydd y rhain yn cael eu cofnodi

2. Bydd swyddogion yn cael cyfle i egluro i'r Pwyllgor Cynllunio beth yw goblygiadau cynllunio a/neu gyfreithiol eu penderfyniad bwriedig cyn cadarnhau'r penderfyniad hwnnw.
3. Pan fydd Pwyllgor yn dymuno ychwanegu neu addasu amodau/rhesymau neu atodi rhwymedigaeth cynllunio rhoddir cyfle i'r Swyddogion egluro'r goblygiadau cynllunio a /neu gyfreithiol cyn cadarnhau'r penderfyniad hwnnw.

## 10 APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR

10.1 Bydd swyddogion yn trefnu ac yn ymddangos fel tystion cyffredinol mewn apeliadau cynllunio ac achosion eraill ar ran y Cyngor. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn ofynnol penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

10.2 Wrth roi tystiolaeth bydd Swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau posibl ar ran y Cyngor wrth gydymffurfio â Chod Ymddygiad Proffesiynol RTPI*.

10.3 Mewn achosion pan fydd apêl yn erbyn penderfyniad y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud yn groes i argymhelliad y Swyddog, efallai y gall y swyddog achos cynllunio roi tystiolaeth, ond mewn rhai achosion, bydd swyddog neu ymgynghorwyr eraill yn cael eu cyflogi os bydd Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio o'r farn y gallai safbwyntiau a nodwyd gan y swyddog achos yn flaenorol eu rhwystro rhag cyflwyno achos llawn.

10.4 Mae gan Aelodau rôl bwysig i'w chwarae mewn apeliadau ac efallai, o fewn terfynau amser penodedig, y gallant wneud sylwadau ysgrifenedig i'r arolygydd ac efallai y gallant ymddangos mewn Gwrandawiadau Anffurfiol neu fel tyst mewn Ymchwiliad. Wrth wneud hynny dylent nodi a ydynt yn gweithredu yn eu rôl fel Cynghorydd Lleol, neu, mewn eithriad, yn cynrychioli achos y Cyngor.

10.5 Bydd Swyddogion yn cefnogi Aelodau sy'n dymuno mynychu'r apêl a/neu wneud sylwadau a'u cynghori ynglŷn â pharatoi a darparu tystiolaeth.

* Mae Cod Ymarfer Proffesiynol Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol, ymysg pethau eraill, nad yw'r Swyddogion Cynllunio sy'n aelodau o'r Sefydliad yn cyflwyno datganiadau sydd i bob golwg yn safbwynt eu hunain, ond sy'n groes i'w gwir safbwynt broffesiynol.

## 11 HYFFORDDIANT AELODAU

11.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn ymgymryd â hyfforddiant a bod y cyfle hwn yn cael ei gynnig i'r holl Aelodau.

11.2 Bydd Aelodau'n cael cynnig hyfforddiant craidd o fewn tri mis o'u penodi i'r Pwyllgor. Bydd hyn ar ffurf 2 sesiwn undydd yn ymdrin â gweithdrefnau cynllunio, y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio sylweddol, uniondeb a thestunau eraill sy'n cael eu penderfynu o bryd i'w gilydd gan Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Aelodau.

11.3 Bydd hyfforddiant arall ar gael ar ffurf sesiynau ychwanegol, cyflwyniadau byr i'r Pwyllgor a dosbarthu nodiadau briffio.

**ATODIAD 1**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**
**PROTOCOL AR SIARAD CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**MEHEFIN 2015**

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r protocol hwn yn egluro’r weithdrefn er mwyn i’r cyhoedd allu cyfarch y Pwyllgor Cynllunio. Ni all y cyhoedd gyfarch y Pwyllgor fel mater o hawl, ond yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor ac yn unol â Chod Ymarfer Cynllunio’r Cyngor a’r weithdrefn a nodwyd isod.

## 2 Y WEITHDREFN

**Hysbysiad i'r Cyhoedd Cyn y Pwyllgor**

2.1 Mae llythyrau’r Cyngor yn cydnabod eu bod wedi derbyn ceisiadau ac yn hysbysu’r cymdogion o’r ceisiadau yn cynnwys nodyn yn egluro sut y gellir gwneud sylwadau ac yn crynhoi’r weithdrefn er mwyn i’r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor. Mae'r nodyn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.2 Mae’n rhaid i unigolion ysgrifennu, e-bostio neu ffonio’r **Rheolwr Gweinyddol** yn yr Adran Gynllunio a Rheoleiddio i fynegi eu dymuniad i siarad neu gael eu hysbysu os yw’r cais yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor er mwyn iddynt ddewis a ydynt am siarad yn hwyrach. Naill ffordd neu’r llall, bydd y **Rheolwr Gweinyddol** yn eu cynghori efallai na fydd y cais yn cael ei benderfynu gan y Pwyllgor, oni bai y gwneir sylwadau sy'n groes i argymhelliad arfaethedig y Swyddogion Cynllunio, ond os yw’n cael ei atgyfeirio i’r Pwyllgor byddant yn eu ffonio / ysgrifennu atynt/ gyrru e-bost.

2.3 Mae’n rhaid cyflwyno cais i siarad cyn y terfyn amser a nodwyd ar yr hysbysiad i ymgeiswyr a chymdogion ac sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Ar hyn o bryd, y terfyn amser yw 4.30pm y dydd Gwener cyn y cyfarfod Pwyllgor, ond gallant newid dros amser. Os derbynnir cais i siarad ar ôl y terfyn amser, bydd y **Rheolwr Gweinyddol** yn ei gwneud yn glir i’r aelod o’r cyhoedd y gallai Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio arfer eu disgresiwn i ganiatáu iddynt siarad, ond na fydd modd cadarnhau hyn tan yn union cyn y cyfarfod Pwyllgor (ar ôl cadarnhad gan y Cadeirydd yng nghyfarfod Briffio cyn y Pwyllgor) ac y dylent ofyn i'r **Clerc Pwyllgor** wrth fynychu’r Cyfarfod Pwyllgor.

2.4 Mae’n rhaid i unigolion sy'n dymuno siarad ganiatáu i’r Cyngor roi eu henw a’u rhif ffôn i eraill â’r un safbwynt sydd hefyd yn gwneud cais i siarad. Mae hyn yn eu galluogi i gytuno pwy fydd yn siarad ar y noson a’r materion i’w codi, ond os nad ydynt yn cytuno, y sawl a gyflwynodd y cais gyntaf fydd fel arfer yn cael eu caniatáu i wneud hynny. Byddwn hefyd yn gofyn i’r siaradwr pwy y maent yn eu cynrychioli er mwyn nodi hyn ar yr adroddiad i’r Pwyllgor (e.e. ymgeisydd, asiant, cymydog yn cynrychioli’r gymuned).

2.5 Os bydd ail unigolyn yn cysylltu â'r Cyngor i siarad yn y pwyllgor, bydd y **Rheolwr Gweinyddol** yn eu hysbysu bod y Cyngor eisoes wedi derbyn cais ac yn rhoi enw a rhif ffôn yr unigolyn dan sylw iddynt er mwyn iddynt allu trafod cynnwys ac ati. Cedwir enw'r ail unigolyn rhag ofn y bydd yr unigolyn cyntaf yn penderfynu nad ydynt eisiau siarad mwyach.

2.6 Mae'r **Rheolwr Gweinyddol** yn cofnodi ceisiadau i siarad ar gronfa ddata.

2.7 Os bydd cais yn cael ei benderfynu gan Brif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio o dan bwerau dirprwyol mae'r **Rheolwr Gweinyddol** yn ffonio neu anfon e-bost at y 'siaradwr' i'w hysbysu o'r penderfyniad.

2.8 Pan fydd y **Rheolwr Cynllunio** yn trefnu eitem ceisiadau cynllunio ar Raglen y Pwyllgor byddant yn cysylltu â'r unigolyn cyntaf ar y rhestr a fynegodd ddiddordeb mewn siarad, ac yn eu hysbysu ynglŷn â'r canlynol:

- yr argymhelliad
- lle y gellir arolygu'r adroddiad
- trefniadau ar gyfer mynychu'r Pwyllgor (e.e. lleoliad, parcio, mynediad i bobl anabl, angen adrodd i'r Clerc Pwyllgor rhwng 3.30 a 3.45 pm).
- nad oes angen ailadrodd y pwyntiau a nodwyd yn y sylwadau ysgrifenedig

Os nad yw'r unigolyn cyntaf ar y rhestr yn dymuno siarad bydd y **Rheolwr Gweinyddol** yn cysylltu â'r ail unigolyn.

**Rhaglen y Pwyllgor**

2.9 Bydd Rhaglen y Pwyllgor yn dilyn y drefn ganlynol fel nad oes yn rhaid i'r siaradwyr eistedd trwy'r rhaglen gyfan:

1. ymddiheuriadau
2. cofnodion
3. **Ceisiadau Cynllunio**
4. eitemau eraill i'w penderfynu
5. eitemau eraill er gwybodaeth

**Diwrnod y Pwyllgor**

2.10 Ar ddiwrnod y Pwyllgor, bydd y **Rheolwr Rheoli Cynllunio** yn paratoi Adendwm i'r Adroddiad sydd, yn ogystal â rhestru gwybodaeth a sylwadau a dderbyniwyd ers paratoi'r rhaglen, yn rhestru'r ceisiadau sydd â siaradwyr ar eu cyfer. Mae'r Adendwm yn aildrefnu'r rhaglen ar y noson er mwyn i'r ceisiadau â 'siaradwyr' gael eu cyflwyno yn gyntaf.

2.11 Mae'r **Rheolwr Rheoli Cynllunio** yn hysbysu Aelodau'r Ward o unrhyw fwriad i newid argymhelliad.

2.12 Mae'r **Rheolwr Rheoli Adeiladu** yn argraffu'r Adendwm i'w gasglu gan y **Clerc Pwyllgor** erbyn **1.30pm** ar ddiwrnod y Pwyllgor.

2.13 **Mae'r Clerc Pwyllgor** yn dod â'r Adendwm i'r Cyfarfod Briffio Cyn y Pwyllgor.

2.14 **Mae Swyddogion Gweinyddol Cynllunio** yn gosod copïau o'r Adendwm yn ardaloedd eistedd yr Aelodau a'r cyhoedd pan fyddant yn dod â ffeiliau ceisiadau i'r Ystafell Bwyllgor.

**Cyfarfod Briffio'r Cadeirydd / Is-gadeirydd Cyn y Pwyllgor**

2.15 Mae'r **Cadeirydd** yn ystyried ceisiadau i siarad sy'n hwyr.
Fel arfer byddant yn arfer eu disgresiwn i ganiatáu siaradwr dim ond pan fydd siaradwr ar yr 'ochr arall' eisoes. Fel arall byddai'n annheg ar gyfer y rhai nad ydynt yn bresennol gan eu bod yn ymwybodol nad oes unrhyw un wedi gofyn am gael siarad.

**Cyn dechrau'r Cyfarfod**

2.16 Am 3.30 p.m. (hyd at **3.45pm),** bydd y **Clerc Pwyllgor** yn cyfarch y siaradwyr, yn egluro y bydd y Cadeirydd yn eu galw ymlaen i siarad, ble i eistedd, fod ganddynt 3 munud ac y bydd y Cadeirydd yn gofyn iddynt ddychwelyd i'w sedd oni bai fod gan yr Aelodau gwestiynau iddynt.

2.17 Os bydd unrhyw un yn gofyn i gael siarad nad ydynt wedi'u rhestru yn yr Adendwm, bydd y **Clerc Pwyllgor** yn egluro efallai ei bod yn rhy hwyr, ond y byddant yn gofyn i'r Cadeirydd.

2.18 Efallai y bydd rhai yn egluro eu bod yn siarad yn lle'r unigolyn sydd wedi'u rhestru yn yr Adendwm a bod y **Clerc Pwyllgor** yn nodi'r rhain ar yr Adendwm. Mae'n annhebyg y bydd dadleuon ynglŷn â hyn, ond os oes, bydd yr unigolyn a enwyd yn yr Adendwm yn cael eu galw ymlaen i siarad.

2.19 Mae'r **Clerc Pwyllgor** yn hysbysu'r Cadeirydd trwy roi fersiwn o'r Adendwm i'r Adroddiad wedi'i farcio iddynt .

2.20 **Mae'r Cadeirydd** yn nodi a ydynt am ganiatáu'r siaradwyr hwyr.

2.21 Mae'r **Clerc Pwyllgor** yn hysbysu'r siaradwr hwyr o benderfyniad y Cadeirydd.

**Rheoli'r Cyfarfod Pwyllgor**

2.23 **Mae'r Cadeirydd** yn croesawu'r cyhoedd ac yn egluro ar ôl ystyried y cofnodion, y bydd yr eitemau sydd â siaradwyr yn cael eu cyflwyno yn gyntaf. Bydd yn cyfeirio pobl at yr Adendwm, sy'n dangos y drefn ddiwygiedig ac yn cynghori y bydd y rhaglen yn parhau â'r drefn wreiddiol ar ôl trafod yr eitemau hyn.

2.24 Os oes cais mawr iawn fel arfer bydd y **Cadeirydd** yn ymdrin â'r mater hwn yn gyntaf, hyd yn oed cyn y cofnodion, er mwyn caniatáu i'r cyhoedd adael a gwneud gweddill y cyfarfod yn fwy hylaw.

2.25 **Mae'r Cadeirydd** yn rhoi gwybod i'r cyhoedd bod Aelodau'r Ward yn yr ystafell. Mae'r cyhoeddiad hwn yn dangos i'r cyhoedd y gwahanol rolau sydd gan yr Aelodau yn y cyfarfod.

2.26 **Mae'r Cadeirydd** yn galw'r siaradwr cyntaf <u>yn erbyn</u> y cais ymlaen.
Mae'r siaradwr yn eistedd wrth y prif fwrdd gyda'r microffon. Ni chaniateir i'r siaradwr ddosbarthu deunydd ysgrifenedig, dal hysbyslen ac ati na defnyddio fideos.

2.27 Unwaith y bydd y siaradwr yn dechrau siarad, mae'r **Clerc Pwyllgor** yn dechrau cloc sy'n gwneud sŵn 'bîp' y gall yr ystafell ei gyd ei glywed.
Unwaith y bydd y 3 munud i ben bydd sŵn 'bîp' arall.

2.28 Os yw'r siaradwr yn cymryd mwy na 3 munud fel arfer bydd y **Cadeirydd** yn aros iddynt orffen eu brawddeg ac yna'n dweud yn garedig rhywbeth tebyg i "Mae'n ddrwg gennyf i ond mae eich 3 munud ar ben". Nid yw'n caniatáu mwy o amser er lles tegwch, ond os ydynt yn ymddangos yn anghyfarwydd â'r broses gall ganiatáu ambell eiliad ychwanegol ac yna caniatáu i'r siaradwr 'o blaid' y cynnig i gael estyniad amser tebyg.

2.29 O bryd i'w gilydd efallai y bydd **Aelodau Pwyllgor** yn gofyn cwestiwn i'r siaradwr drwy'r Cadeirydd, ond ni chaniateir i'r siaradwyr ddechrau trafodaeth gyda'r Aelodau.

2.30 **Mae'r Cadeirydd** yn gofyn i'r siaradwr ddychwelyd i'w sedd cyn gwahodd y siaradwr 'o blaid' y cais i'r microffon.

2.31 Os nad yw un o'r siaradwyr yn cyrraedd a bod y siaradwr sy'n weddill o blaid argymhelliad y swyddogion ac nad oes Aelod Ward sy'n dymuno siarad, gall **Aelod Pwyllgor** ofyn am gael cynnig yr argymhelliad ac os cymeradwyir y cais heb drafodaeth, yna ni wahoddir y siaradwr i siarad.
Fodd bynnag, os bydd Aelod Ward yn dymuno siarad neu fod Aelodau eisiau gofyn cwestiynau neu drafod y cais, bydd y **Cadeirydd** yn gwahodd y siaradwr i siarad yn gyntaf.

2.32 **Mae'r Cadeirydd** yn gwahodd Aelodau nad ydynt yn aelodau Pwyllgor i siarad **ar ôl y cyhoedd / ymgeisydd, ond cyn y drafodaeth gan y Pwyllgor.**
Mae'r Aelodau hyn yn dod at y microffon a ddefnyddiwyd gan y cyhoedd.

2.33 Mae'r cais yn cael ei drafod yn y dull arferol.

2.34 **Mae'r Cadeirydd** yn adrodd y penderfyniad i'r cyhoedd.

2.35 Mae'r **Clerc Pwyllgor** yn cofnodi pwy siaradodd yn y Pwyllgor.

Dychwelyd at y Brif Raglen

2.36 Pan fydd yr eitemau gyda siaradwyr wedi dod i ben bydd y rhaglen arferol yn parhau.  Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod rhestr o'r rhifau tudalen sydd wedi'u trafod yn cael eu marcio wrth i'r cyfarfod fynd yn ei flaen er mwyn llenwi'r bylchau.

**ATODIAD 2**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**
**PROTOCOL ARCHWILIADAU SAFLE'R PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**MAI 2003**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r protocol hwn yn egluro'r weithdrefn ar gyfer cynnal archwiliadau safle'r Pwyllgor Cynllunio.

## 2. GWEITHDREFN

2.1 Bydd yr holl Aelodau Cyngor yn cael eu hysbysu ynglŷn ag archwiliadau safle.

2.2 Bydd yr ymgeisydd yn cael eu hysbysu i hwyluso mynediad i'r safle.

2.3 Bydd rhestr o ymweliadau safle ac amseroedd yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r trefniadau arferol a'r gofynion statudol ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor.

2.4 Bydd y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb) yn galw'r cyfarfod i drefn.

2.5 Bydd y Swyddog Cynllunio'n darparu crynodeb byr o'r cais a'r materion cynllunio ar ddechrau pob archwiliad.

2.6 Caniateir i Aelodau nad ydynt yn Aelodau Pwyllgor i annerch y Pwyllgor ar faterion o ffaith.

2.7 Ni chaniateir i'r ymgeisydd a'r cymdogion i annerch y Pwyllgor yn ystod yr archwiliad, ond efallai y bydd y Cadeirydd yn gofyn iddynt egluro materion o ffaith.

2.8 Ni fydd y Pwyllgor Cynllunio'n trafod y cais nac yn gwneud penderfyniad ar y safle, ond gallant, drwy'r Cadeirydd, ofyn cwestiynau i'r swyddogion, ymgeisydd neu'r cyhoedd i egluro materion o ffaith.Bydd unrhyw gwestiynau o'r fath a ofynnir i'r ymgeisydd neu'r cyhoedd yn cael eu gofyn er mwyn iddynt gael eu clywed gan y naill ochr a'r llall.

2.9 Bydd y Pwyllgor Cynllunio'n ymgynnull ar ôl yr archwiliad olaf yn Neuadd y Dref i wneud penderfyniad lle y bydd gan yr Aelodau'r holl wybodaeth ofynnol o'u blaen er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a bydd cyfle i'r holl bartïon fod yn bresennol.
Gall Aelodau Lleol annerch y Pwyllgor, ond ni chaniateir i'r ymgeisydd na'r cymdogion siarad.